

## Blog ar Bartneriaethau Dysgu Awdurdodau Lleol - Ionawr 2023

Mae Mannau Gwyrdd Gwydn yn brosiect partneriaeth gwerth £1.27m sy'n cael ei arwain gan Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol i beilota systemau bwyd eraill sydd wedi'u hail-leoleiddio gan ddefnyddio cymunedau a'u mannau gwyrdd fel sbardun ar gyfer newid ledled Cymru tan fis Mehefin 2023.

Mae'r prosiect hwn yn cael ei gyllido drwy Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru.

Fel rhan o [Mannau Gwyrdd Gwydn](#), mae [Shared Assets](#) a [Chynghrair Gweithwyr y Tir](#) wedi bod yn gweithio i gynyddu mynediad cymunedol i dir ar gyfer ffermio amaethcolegol. Mae hyn wedi golygu gweithio ar sawl rhan wahanol o'r system i geisio cynhyrchu newid, megis casglu tystiolaeth ar y rhwystrau presennol i fynediad cymunedol at dir yng Nghymru, deall anghenion, eisiau a chapasiti pobl sy'n chwilio am dir, uno ffynonellau data ar fapiau o dir cyhoeddus, ysgrifennu astudiaethau achos o arfer da, a chynnig y cyfle i sicrhau £100,000 tuag at brynu tir ar gyfer ffermio amaethcolegol a chymunedol. Un gweithgaredd mwy diweddar rydyn ni wedi bod yn ei gydlyn, ers mis Medi 2022, yw cyfarfodydd rheolaidd 'partneriaeth dysgu' ar gyfer cynrychiolwyr awdurdodau lleol ar draws Cymru sydd â diddordeb mewn cefnogi mynediad cymunedol i dir.

Daeth y syniad ar gyfer y cyfarfodydd hyn i'r amlwg yn dilyn digwyddiadau a sgysiau a gawsom gyda sawl awdurdod lleol gwahanol yn gynharach yn 2022, pan ddaeth hi'n amlwg bod awydd i gael gofod agored a gonest i rannu dysgu a profiadau gyda'i gilydd ar gefnogi eu cymunedau i gael mynediad i dir ar gyfer tyfu bwyd. Fel tipyn o arbrawf, dechreuodd Shared Assets a Chynghrair y Gweithwyr Tir ar y cyd drefnu amser ar gyfer galwad misol, gan hwyluso'r trafodaethau'n ysgafn yn y cyfarfodydd hyn, a rhannu'r nodiadau wedyn. Weithiau rydym wedi trefnu i siaradwyr ddod i siarad am eu gwaith i sbarduno sgwrs ar bwnc penodol, megis sefydlu cynllun Amaethyddiaeth â Chymorth Cymunedol ar dir y Bwrdd Iechyd, ond yn bennaf mae gan staff yr awdurdod lleol a chynrychiolwyr etholedig sy'n mynychu fwy na digon i siarad amdano ymysg ei gilydd – sydd weithiau'n seiliedig ar thema sydd wedi cael ei hawgrymu gan y grŵp (e.e. defnyddio'r system gynllunio), neu'n fwy cyffredinol yn seiliedig ar eu profiadau diweddar.

Fel arfer, mae rhwng tua phump a deg o gydweithwyr yr awdurdod lleol yn troi i fyny, ac mae'n ymddangos bod ymdeimlad o ymddiriedaeth a pherthynas yn dyfnhau ymysg y grŵp cymharol fach hwn. Mae'r bobl sy'n mynychu yn gwybod y gallan nhw rannu eu heriau a'u rhwystredigaethau yn gyfrinachol gydag aelodau eraill y grŵp, ond hefyd yn gallu awgrymu a rhannu adnoddau y maen nhw wedi'u rhoi at ei gilydd i oresgyn rhai materion fel nad oes rhaid i bob corff cyhoeddus ddechrau o'r dechrau wrth feddwl am hybu mynediad cymunedol i dir. Lle gall Shared Assets neu Gynghrair y Gweithwyr Tir gynnig cyngor neu gyfeirio at ein cysylltiadau a allai fod ag arbenigedd ar bwnc

*This project has received funding through the Welsh Government Rural Communities – Rural Development Programme 2014-2020, which is funded by the European Agricultural Fund for Rural Development and the Welsh Government.*

penodol, rydym yn gwneud hynny, ond yn bennaf mae'r cyfarfodydd hyn yn ofod ar gyfer dysgu cyfoedion. Mae'r awdurdodau lleol sydd wedi cymryd rhan yn dweud eu bod yn mwynhau clywed am bethau'n digwydd mewn ardaloedd eraill, datrysiadau'n cael eu rhannu a gallu gofyn sut mae'r rhain wedi digwydd, ac elwa o allu cael trafodaethau gyda phobl o'r un anian sydd ar yr un ochr â nhw yn yr hyn maen nhw'n ceisio'i gyflawni ac sy'n deall y rhwystrau. Mae Shared Assets a Chynghrair y Gweithwyr Tir hefyd wedi elwa llawer o allu meithrin perthynas agosach gyda phobl o fewn awdurdodau lleol sy'n rhannu ein nodau, ac y gallwn weithio gyda nhw ar y prosiect Mannau Gwyrdd Gwydn, a thu hwnt.

Os yw sefydliadau eraill yn credu y gallai dull tebyg o ymgysylltu a chefnogi awdurdodau lleol fod yn ddefnyddiol ar gyfer eu gwaith ar bwnc penodol, dyma rai o'n prif gynghorion:

- **Gosod y sylfaen yn dda** - mae'n ddefnyddiol sefydlu rhai 'rheolau sylfaenol' cyffredin ar ddechrau unrhyw gyfarfod o'r fath (fel 'rheolau Chatham House') fel bod cyfranogwyr yn teimlo'n gyfforddus i siarad yn agored
- **Caniatáu digon o amser, a gorffen yn gynnar os oes angen** - rydym yn caniatáu 90 munud ar gyfer ein galwadau, sy'n teimlo fel cyfnod da o amser i drafod pwnc yn fanwl, ond hefyd i rai trywyddau eraill gael eu harchwilio. Fodd bynnag, rydym bob amser yn agored i ddod â galwad i ben yn gynnar os yw sgwrs yn teimlo'i fod wedi'i gorffen, gan fod amser pawb yn werthfawr
- **Darparu cydbwysedd rhwng strwythur a hyblygrwydd** - rydym yn ceisio rhannu gwahoddiadau calendr gyda phawb sydd â diddordeb sawl mis ymlaen llaw, ac mae croeso i bobl fynychu neu beidio o fis i fis, neu anfon cydweithiwr yn eu lle, gan ein bod yn gwybod y gall blaenoriaethau eraill godi ar y funud olaf. Hefyd, er y gall fod yn ddefnyddiol cael pwnc mewn golwg ar gyfer cyfarfod, ac efallai anfon ambell i gwestiwn at bawb ymlaen llaw er mwyn cael pobl i feddwl, mae llawer o gyfoeth y galwadau hyn yn dod o'r sgwrsiau amrywiol a gwneud cysylltiadau annisgwyl, felly mae'n dda caniatáu lle i'r rheini hefyd.

Dros y misoedd nesaf, byddwn yn ceisio trosglwyddo'r cyfarfodydd hyn i fodel ymarfer cymunedol all fod yn hunan-gynhaliol i gynrychiolwyr yr awdurdodau lleol hyd yn oed ar ôl i brosiect Mannau Gwyrdd Gwydn ddod i ben.

Gyda chymaint o bwysau ar staff awdurdodau lleol ac ar dir ac adnoddau eraill, mae'n bwysig creu gofodau yn rhagweithiol i gynhyrchu syniadau, datrys problemau, dathlu a chydymdeimlo gyda'n gilydd. O'n profiad ni, rydyn ni'n credu bod y rhain yn helpu i adeiladu'r berthynas rhwng awdurdodau lleol a thu hwnt i hynny, perthynas sy'n hanfodol i gynyddu mynediad tir i fwy o bobl yng Nghymru.

Ionawr 2023

*This project has received funding through the Welsh Government Rural Communities – Rural Development Programme 2014-2020, which is funded by the European Agricultural Fund for Rural Development and the Welsh Government.*